ColegauCymru
CollegesWales

Yn codi proffil addysg bellach
Raising the profile of further education

newyddion Cymraeg ColegauCymru #179
13 Ebrill 2015

Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - rhifyn estynedig yn dilyn y Pasg.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi Cysylltwch.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news - a post-Easter bumper edition.

Do please let us know if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

Colegau yn Parhau i Wella Ansawdd

Mintai o Gymru yn Cefnogi Datblygiadau WorldSkills y Deyrnas Unedig ar gyfer y Dyfodol

Ymwelodd uwch-reolwyr ac aelodau o fwrdd sefydliad Find a Future a Chymdeithas y Colegau (AOC) â Choleg Sir Gâr ar Gampws y Graig ar gyfer
cyfarfod adolygu Cystadleuaeth WorldSkills DU. Yn y cyfarfod adolygu,
gyda Barry Liles Prif Weithredwr a Phrifathro Coleg Sir Gâr a Phencampwr Sgiliau Cymru yn gadeirydd, daeth llu o Hybwyr Sgiliau brwdfrydig at ei gilydd o bob cwr o Gymru i rannu eu dysg a chefnogi datblygiadau Cystadlaethau World Skills y DU ar gyfer y dyfodol.
Mwy>>>

Ysbrydoli aseswyr dysgu seiliedig ar waith

Bu bron i 200 o aseswyr dysgu seiliedig ar waith ar draws canolbarth, de a gorllewin Cymru rannu arfer gorau yn ddiweddar yn y gynhadledd mwyaf o'i fath i'w gynnal gan y Consortiwm B-WBL - yn barod ar gyfer gontract newydd ac ail-frandio'r Consortiwm, a ddisgwylir i ddechrau ar 1 Ebrill 2015.
Ymysg y dysgu allweddol ar y diwrnod oedd: integreiddio'r iaith Gymraeg, technoleg ddigidol, ADCDF, llythrennedd a rhifedd.
Mwy>>>

Cynlluniau dysgu ar gyfer Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd

Fel rhan o gytundeb rhwng Cyngor Caerdydd a Choleg Caerdydd a'r Fro, bydd y Coleg yn rheoli Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd o'r haf ymlaen.
Bydd tir yn cael ei brydlesu hefyd i bartner y Coleg, y Tŷ Chwaraeon.

Mae’r partneriaid yn bwriadu buddsoddi mewn cyfleusterau newydd ac ystafelloedd dosbarth yn y stadiwm, gan warchod y safle fel canolfan gymunedol a lleoliad athletau rhyngwladol ac ehangu a gwella darpariaeth chwaraeon y Coleg hefyd.
Mwy>>>

Achrediad o'r radd flaenaf ym maes rheoli amgylcheddol

Llwyddodd Grŵp Llandrillo Menai i gyflawni'r lefel uchaf bosibl unwaith eto o ran safonau amgylcheddol ac agenda gwyrdd, sy'n ei gwneud yn un o'r sefydliadau addysgiadol mwyaf 'gwyrdd' yng Nghymru.
Mwy>>>

Coleg Gwent yn derbyn Gwobr Nod Ansawdd ar gyfer Cyfarwyddyd Gyrfaoedd

Mae Campws Casnewydd Coleg Gwent wedi ennill Marc Gyrfa Cymru i gydnabod gwella ansawdd parhaus yn y ddarpariaeth gyrfaoedd a rhaglenni'r byd gwaith sy'n rhoi i fyfyrwyr weithgareddau gwerthfawr gan gynnwys profiadau gwaith, digwyddiadau sgiliau ac ymweliadau a drefnir gan bobl fusnes leol.
Mwy>>>

Agoriad swyddogol y Ganolfan Ynni

Mae Hyfforddiant GCS, braich hyfforddi busnes Coleg Gŵyr Abertawe, wedi agor Canolfan Ynni newydd sbon yn Hill House, yng nghwmni Julie James, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.
Mae'n fwriad gan y coleg i sefydlu Canolfan Rhagoriaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy yn Hill House.
Mwy>>>

Rygbi Cynghrair Cymru a Choleg y Cymoedd yn lansio Academi newydd Rygbi’r Gynghrair

Mae rhestr academïau chwaraeon Coleg y Cymoedd yn cynyddu gyda lansio Academi newydd sbon ar gyfer Rygbi’r Gynghrair wedi’i lleoli ar gampws Ystrad Mynach.
Mae egin sêr Rygbi’r Gynghrair yn cael cyfle i hawlio’u lle ar y rhaglen a fydd yn cyfuno hyfforddiant ac addysg amser llawn.
Mwy>>>

Eco-ddysgu Darlithwraig yn yr Amason

Bu'r darlithydd cerbydau modur, Hayley Southgate, o Gampws Drenewydd Grŵp NPTC ar antur Amason y Pasg hwn, diolch i gyfle addysgol a ddarperir gan Plan-it Eco ar gyfer gweithwyr y byd addysg.
Ar iddi ddychwelyd, bwrieda ddefnyddio ei phrofiad i ysbrydoli myfyrwyr i ystyried ein / eu heffeithiau amgylcheddol.
Mwy>>>

Dilyniant Myfyrwyr

Myfyrwyr Academi Gyrfaoedd Coleg Caerdydd a'r Fro yn mynd o nerth i nerth

Mae dwy fyfyrwraig Coleg Caerdydd a'r Fro sy'n perthyn i'r Academi Gyrfaoedd yn gwneud argraff fawr.
Mae Tereza Kavalova wedi ennill rownd ranbarthol Gwobr Syr Winfried i Fyfyriwr y Flwyddyn yr Academi Gyrfaoedd ac mae wedi cael cynnig lle gan bump o brifysgolion hefyd.
Yn y cyfamser, mae myfyrwraig arall o'r Academi Gyrfaoedd – Megan Harrington, 18 oed o Gaerdydd – wedi cael cyfle i fynd ar brofiad gwaith i bencadlys Freshfields Bruckhaus Deringer, cwmni cyfreithiol mwyaf y byd, yn Llundain.
Mwy>>>

Llongyfarchiadau! Llwyddiant Myfyrwyr

Myfyriwr yn cael ei ethol fel Swyddog Iaith Gymraeg UCM Cymru

Siôn Davies o Goleg Sir Gâr yw'r myfyriwr cyntaf o'r sector addysg bellach i gael ei ethol fel Swyddog yr Iaith Gymraeg ar gyfer Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru. Hefyd Siôn, sy'n astudio pynciau Safon Uwch gan gynnwys y Gymraeg yng Ngholeg Sir Gâr, yw'r siaradwr Cymraeg ail-iaith cyntaf erioed i gael ei benodi i'r swydd.
Mwy>>>

Dyfarnu Gwobr Dysgwr Mynediad i Addysg Uwch i fyfyriwr Coleg Gwent ym Mhalas San Steffan

Dyfarnwyd i fyfyriwr nyrsio Coleg Gwent, Jamie Maidment, nad oedd ganddo unrhyw gyflawniadau academaidd blaenorol, Wobr Goffa Mynediad i Addysg Uwch Keith Fletcher eleni ym Mhalas San Steffan.
Mwy>>>

Gwobrwyo gwaith tîm yn yr Her Menter Fyd-eang

Mae myfyrwyr busnes mentrus o Gampws Crosskeys Coleg Gwent wedi ennill y wobr Ian Bennet am eu gwaith tîm, wedi datblygu app fel rhan o'r Her Menter Fyd-eang (GEC).
Mwy>>>

Llwyddiant Coleg Gwent yn yr Her Arian am Oes

Mae tri thim o fyfyrwyr o Goleg Gwent wedi cyrraedd rownd derfynol Cymru yy Her Arian am Oes. Byddant yn cystadlu yn rownd derfynol Genedlaethol Cymru yn y Doctor Who Experience yng Nghaerdydd ar 28 Ebrill.
Mwy>>>

Triawd Coleg Ceredigion ar y Rhestr Fer ar Gyfer Gŵyl Ffilmiau

Mae gwaith tri o fyfyrwyr cwrs Cynhyrchu Celfyddydau Coleg Ceredigion wedi cyrraedd rhestr fer un o wyliau ffilm mwyaf mawreddog Cymru i dalent ifanc, Gŵyl Ffilm Ieuenctid Zoom.
Mwy>>>

Ffilm myfyriwr yn Cyrraedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Bydd myfyriwr Cynhyrchu'r Cyfryngau o Goleg Ceredigion, Osian Pearson, yn cynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai, wedi iddo ddod i'r brig yng nghategori Celf, Dylunio a Thechnoleg yng Ngheredigion.
Mwy>>>

Gwledd o fedalau i'n Dysgwyr yn y Pencampwriaethau Coginiol

Daeth 8 o ddysgwyr Coleg y Cymoedd Lletygarwch ac Arlwyo ag 16 medal yn ol o Bencampwriaethau Coginiol Rhyngwladol a Chystadlaethau Teisennau Cymru a gynhaliwyd yng Ngholeg Llandrillo.
Mwy>>>

Ffocws ar Gystadlaethau Sgiliau Cymru

Rownd Derfynol Cymru Datblygu Gemau/Modelu 3D

Myfyrwyr o Grŵp Llandrillo Menai gipiodd holl wobrau y rownd derfynol Cystadleuaeth Sgiliau Cymru - Datblygu Gemau/Modelu 3D - gyda myfyriwr o Goleg Menai yn ennill aur a myfyrwyr o Goleg Llandrillo yn cipio'r arian a'r efydd.
Mwy>>>

Rownd derfynol Cymru: Peirianneg Fecanyddol (CAD)

Coleg Gŵyr Abertawe oedd lleoliad rownd derfynol Cystadleuaeth Sgiliau Cymru ar gyfer Peirianneg Fecanyddol (CAD) yn ddiweddar, gyda nawdd TWI, Quartzelec, Express Metals a Mechatronics a chefnogaeth Autodesk a darlithwyr coleg.
Yr enillwyr ar y diwrnod oedd Alex Dighton o Goleg y Cymoedd (Aur), Joseph Dickerson o Goleg Gŵyr Abertawe (Arian) a Rhys Samuel o Grŵp CNPT (Efydd).
Mwy>>>

Gwobr Aur Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae myfyrwraig 17 oed o Goleg Sir Gâr wedi ennill rownd derfynol cystadleuaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, fel rhan o Gystadleuaeth Sgiliau Cymru – sef menter a gefnogir gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o hybu lefelau sgiliau ar draws y wlad.
Mwy>>>

Aur ar y cyd yng nghystadleuaeth Patisserie

Bu i fyfyriwr o Goleg Sir Gâr, Oscar Ware, a myfyriwr o Goleg Ceredigion, Kieran Edwards, rannu'r wobr aur yn rownd derfynol Patisserie Cystadleuaeth Sgiliau Cymru.
Caiff y ddau gyfle i fynd ymlaen i Gystadleuaeth Melysion a Phatisserie WorldSkills y DU gyda'r nod o gynrychioli Tîm Cymru yn y Sioe Sgiliau eleni, ym Mirmingham ym mis Tachwedd.
Mwy am Oscar Ware>>>
Mwy am Kieran Edwards>>>

Rowndiau terfynol Cymru ym maes peirianneg CNC

Enillodd dau fyfyriwr/prentis peirianneg fecanyddol Grŵp NPTC cyntaf ac ail yn rownd derfynol Cystadleuaeth Sgiliau Cymru mewn peirianneg CNC.
Darryl Scorey, prentis gyda Formagrind yn Llandarsi, ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth troi. Ei gymrawd, Geraint Griffiths, prentis gyda Wallcolmonoy ym Mhontardawe, daeth yn ail yn yr adran melino.
Mwy>>>

Cyfleoedd Gwaith

Myfyriwr Coleg Ceredigion Yn Cynhyrchu Fideo Cerddoriaeth Iaith Gymraeg

Yn ddiweddar bu i fyfyriwr talentog o Goleg Ceredigion gwblhau cynhyrchu fideo cerddoriaeth hyrwyddol ar gyfer un o'r enwau mwyaf gwreiddiol mewn cerddoriaeth werin Gymreig. Ffilmiodd Hedd Morus, sy'n astudio cynhyrchu cyfryngau ar gampws Aberystwyth, y darn hyrwyddo byr ar leoliad ac wedyn ei olygu fel rhan o'i astudiaethau. Mae Gwilym Morus, sy'n canu ac yn chwarae ar y trac, yn ymddangos mewn llawer o'r golygfeydd yn y fideo trwy effeithiau golygu arbenigol ôl-gynhyrchu.
Mwy>>>

Goleuadau, camera, gweithredu: myfyrwyr yn cynhyrchu sioe deledu

Mae myfyrwyr Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol o Gampws Crosskeys Goleg Gwent wedi bod yn cael profiad go iawn o gynhyrchu sioe teledu byw.
Mwy>>>

Myfyrwyr cerdd ar daith

Mae myfyrwyr o Barth Dysgu Blaenau Gwent Coleg Gwent wedi bod yn cael profiad go iawn o fod yn fand roc ar daith.
Mwy>>>

Coleg yn cael ei ail-wampio gan ddysgwyr

Mae dysgwyr Peintio ac Addurno o Grŵp NPTC wedi ail-wampio ystafell hyfforddi yn y coleg.
Mwy>>>

Cyfleoedd Dysgu

Myfyrwyr Coleg Gwent yn dathlu'r Gymanwlad

Bu Myfyrwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS) o Gampws Crosskeys Coleg Gwent yn ymuno a 1,000 o bobl ifanc o bob rhan o'r DU ar gyfer Diwrnod y Gymanwlad yn Abaty Westminster. Gwahoddwyd y myfyrwyr am eu gwaith ar Brosiectau Ieuenctid y Gymanwlad drwy gydol y flwyddyn
Mwy>>>

Dylunydd yn Cynnig Cipolwg ar Farchnata Cynnyrch yn yr Oes Ddigidol

Mae myfyrwyr Adran Dylunio, Gwneud ac Atgyweirio Dodrefn Coleg Ceredigion wedi cael eu cyflwyno i waith Jam Furniture ynghyd â mewnwelediad i'r diwydiant a byd marchnata digidol diolch i sesiwn gan Ben Cramp o Jam Furniture.
Mwy>>>

Adeiladu Llwyddiant CITB

Mae Grŵp o Golegau'r NPTC wedi bod yn herio sgiliau ei fyfyrwyr mewn cystadleuaeth gwaith brics a gwaith saer. Wedi ei gynnal gan Cyfle ac mewn partneriaeth â Grŵp Adeiladu Bae Abertawe, gwahoddodd y coleg gwmnïau adeiladu lleol AS Wellington, Morganstone, John Weaver Construction a Jistcourt i ddyfarnu'r gystadleuaeth ac i wneud cyflwyniadau ar y byd gwaith.
Mwy>>>

Dysgwyr yn taclo hyrwyddo rhifyn o'r gomedi 'High Hopes'

I ddathlu un bennod arbennig newydd o "High Hopes", y clasur o gomedi gan BBC Wales – sydd i'w dalledu fel rhan o dymor y Cymoedd – cynhaliodd Tîm Gwasanaethau Creadigol y BBC ddau ddosbarth meistr yng Ngholeg y Cymoedd, gan osod sialens i'r dysgwyr i greu rhaghysbyseb i hyrwyddo'r rhaglen gan ddefnyddio meini prawf bywyd go iawn.
Mwy>>>

Nodyn i'r Dyddiadur

Arddangosfa gelf

7 Arlunwyr / 7 Peintwyr yw teitl arddangosfa sy'n cynnwys gwaith gan ddau fyfyriwr gyn Coleg Sir Gâr, Beth Marsden a David Kilvington.
Caiff ei weld yn Oriel Henry Thomas y coleg ar gampws Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin tan 17 Ebrill.
Mwy>>>

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB